

## Banc bwyd

Diolch i bawb sy'n rhoi bwydydd yn y bocs Banc Bwyd yng nghyntedd Capel Coch. Caiff y bwydydd eu hanfon i Fanc Bwyd Caernarfon sy'n gwasanaethu'r dref a'r ardal gyfagos.

## Stampiau

Rydym yn dal i gasglu hen stampiau post yn Capel Coch. Mae croeso i chi eu rhoi yn y bocs yn y cyntedd. O hyn allan, byddwn yn trosglwyddo'r stampiau i Haf Thomas, Buarthau, Llanrug er budd Cymdeithas y Deillion.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Chwefror 12:** Gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan Mr Arwel Williams.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Sul, Chwefror 12:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Chwefror 12:** Ni fydd oedfa.

### BETHLEHEM

**Dydd Iau, Chwefror 9:** Cynhelir 'Bwrlwm' am 2.00 o'r gloch.

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Chwefror 5

3.30 p.m. - Y Gweinidog

### Chwefror 12

5.00 p.m. - Mr Arwel Williams

### Chwefror 19

5.00 p.m. - Y Gweinidog

**Dydd Sul, Chwefror 12:** Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### CARMEL

**Dydd Llun, Chwefror 6:** Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Chwefror 10:** Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Chwefror 12:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg John Lewis Jones.

### CYNLLUN EFE

**Dydd Llun, Chwefror 6:** Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch a Phwyllgor Ymddiriedolwyr am 5.00 o'r gloch yng Nghapel Cysegr, Bethel.



## Y mis nesaf - Llanberis

### Chwefror 5


10.00 a.m. - Mr Dafydd Iwan  
11.15 a.m. - Ysgol Sul

### Chwefror 12

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

### Chwefror 19

10.00 a.m. - Y Parchg Cath Williams  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 715: Dydd Sul, 05 Chwefror, 2017

## Pantycelyn

cyfyngu'r Ffydd i lyfrau hanes. Yn hytrach na byw yn y gorffennol, maen nhw'n mynnu byw a thystio heddiw.

Mae dathliadau 300 mlwyddiant geni William Williams Pantycelyn yn gyfle arbennig i ni ddeall gwerth cofio ac adrodd hen, hen hanes y Ffydd yn ein gwlad. Tybed glywsoch chi'r rhaglenni a ddarlledwyd ar Radio Cymru y Sul diwethaf am y gŵr o Sir Gaerfyrddin a ddaeth yn un o arweinwyr ac yn brif emynydd Methodistiaid y ddeunawfed ganrif? Trwy raglenni o'r fath, a thrwy erthyglau a llyfrau a gyhoeddir dros yr wythnosau nesaf, cawn gyfle newydd gobeithio i werthfawrogi bywyd a gwaith Pantycelyn, a'i gyfraniad mawr nid yn unig i'w oes ei hunan ond i bob oes a'i dilynodd, gan ei fod trwy ei emynau yn fwyaf arbennig yn siarad am brofiadau pob oes ac am Efengyl sy'n diwallu anghenion pob oes. Mae ei emynau'n dangos y neges a daniodd genedl a'r profiadau a fu'n gynhaliath i genedlaethau o Gristnogion a fu'n canu gydag ef am groes a gras, cariad a maddeuant, ofnau a gobaith, nefoedd ac uffern. Heb ei neges, nid oedd - ac ni fyddai - Pantycelyn yn neb o bwys. Ond nid oedd y neges honno'n fwy perthnasol, na'i eiriau'n fwy deallidig i bobl ei oes nag i bobl yr un cyfnod arall. Nid oedd Cymry'r ddeunawfed ganrif yn fwy cyfarwydd na ni â phechod a gras a'r iachawdwriaeth fawr. Y Duw mawr a wnaeth y cyfan yn fyw iddynt, a'r un Duw all eu gwneud yn fyw i ninnau. Ac onid dyna werth hanes?

Rwy'n eiddgeddus o Gristnogion sy'n deall i'r dim bwysigrwydd hanes ac yn gwybod sut i edrych ar ddiwyddiadau a phobl y Ffydd o'r gorffennol pell ac agos. Nid pawb sy'n meddu'r ddawn.

Mae rhai'n arbennig o dda am gofio ac adrodd stori'r blynyddoedd a fu, ond yn llwyddo rywsut i gadw'r cyfan yn daclus yn y llyfrau hanes. Mae gwerth i wybod y stori, wrth gwrs, ond mae'n biti mawr os nad yw'r stori honno'n amlwg yn berthnasol i'n cyfnod ni.

Mae eraill yn euog o anghofio, neu'n hytrach o anwybyddu hanes cyfoethog y Ffydd. Anwybodaeth neu dwpdra sy'n gyfrifol am hynny yn achos pobl sy'n credu nad oes unrhyw werth mewn dysgu am yr hyn a ddigwyddodd yn hanes yr eglwys yma yng Nghymru ac yn y byd mawr mewn cyfnodau blaenorol. Yr unig beth sy'n cyfrif i bobl felly yw'r presennol, a'r unig bobl sy'n cyfrif yw'r bobl sy'n dwyn eu tystiolaeth i Grist heddiw.

Yn achos eraill, adwaith yn erbyn y math o hanes sy'n gwneud y gorffennol yn amherthnasol sy'n gyfrifol am y duedd i anwybyddu stori fawr y Ffydd. Er cymaint y sôn am ddiwyddiadau a diwygiadau, am ddiwygwyr a chyfieithwyr, am saint a phregethwyr, ac am gyfnodau euraidd y blynyddoedd gynt, mae rhywbeth digalon ynghylch y cyfan os rhoir yr argraff mai perthyn i'r gorffennol yn unig y mae'r pethau hyn. Mae llawer wedi troi cefn ar yr hanes am iddynt deimlo fod adrodd y stori'n

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Balm o Salm

'Mawr yw'r ARGLWYDD a theilwng iawn o fawl yn ninas ein Duw, ei fynnydd sanctaidd. **BEIBL BYW**  
Teg o uchder, llawenydd yr holl ddaear, yw Mynydd Seion, ar lechweddau'r Gogledd, dinas y Brenin Mawr. Oddi mewn i'w cheyrydd y mae Duw wedi ei ddangos ei hun yn amddiffynfa ... Dyma Dduw! Y mae ein Duw ni hyd byth bythoedd, fe'n harwain yn dragywydd' (Salm 48:14).

## Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Dafydd Iwan, Caethro. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir yn yr

oedfa am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Gwenda Richards, Caernarfon.

Gwasanaethir yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

## Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

## Agor y Llyfr

Bydd cyfle i glywed am waith cynllun 'Agor y Llyfr' mewn Bore Coffi sydd i'w gynnal yn Festri Capel y Rhos, Llanrug ddydd Mawrth, Chwefror 14 rhwng 10.30 a 12.00 o'r gloch.

Bydd gwybodaeth am waith y cynllun sy'n trefnu timau o bobl i ymweld ag ysgolion cynradd i gyflwyno straeon o'r Beibl i'r plant.

Mae timau lleol yn ymweld ag Ysgol Gwaun Gynfi ac Ysgol Cwm-y-glo ar hyn o bryd. Estynnir gwahoddiad cynnes i chi.

## CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch nos Wener nesaf, Chwefror 10 am 7.00 o'r gloch. Hwn fydd y tro olaf y bydd Andrew yn arwain CIC ar nos Wener cyn iddo symud i'w swydd newydd y mis nesaf.

## Cwrs Ieuenctid

Bydd y Cwrs Ieuenctid nesaf yng Ngholeg y Bala o nos Wener, Chwefror 24 hyd amser cinio, ddydd Sul, Chwefror 26.

## Llanw

Bydd Gŵyl Llanw yn cael ei chynnal yng Nghricieth unwaith eto eleni.

Dyma'r trydydd tro iddi gael ei chynnal yno, a'r dyddiadau eleni yw Ebrill 17 hyd Ebrill 20. Bydd yn cychwyn felly ddydd Llun y Pasg.

Dros y deng mlynedd diwethaf, mae Llanw wedi datblygu'n ŵyl boblogaidd sy'n denu cannoedd o Gristnogion o bob oed o bob rhan o'r wlad. Bydd croeso cynnes i bawb a fydd yn mynd yno.

Dros dri bore ceir anerchiadau gan y Parchg John Treharne, Llwynhendy. Bydd gwahanol seminarau yn ystod y prynhawn. A cheir oedfaon mawl bob gyda'r nos, ac amrywiaeth o bobl yn eu harwain ac yn annerch ynddyn nhw.

Bydd modd aros yng Nghanolfan Wyliau Hafan y Môr ym Mhwillheli yn ystod yr wythnos, ac mae angen rchebu lle yno erbyn Chwefror 27. Ceir manylion ar wefan Llanw, [www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Nid oes rhaid aros yno wrth gwrs. Mae llawer iawn yn dewis mynd i Llanw am y dydd neu i ambell un o'r cyfarfodydd. Mae hynny yn bosibl wrth gwrs i ni sy'n byw o fewn cyrraedd i Gricieth.

Mae'n sicr yn werth mynd i Llanw er mwyn profi cymdeithas Gristnogol a chael ymuno yn yr addoliad.

## 'Y Ffordd'

Cynhelir ail gyfarfod 'Y Ffordd' yn festri Carmel, Llanllechid am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Chwefror 15.

## Yr Henaduriaeth

Cynhelir cyfarfod nesaf Henaduriaeth Arfon yng Nghapel Horeb, Rhostryfan am 1.30 o'r gloch, ddydd Mawrth, Chwefror 28.

## Diolch

Cyn y Nadolig, cafwyd pnawn o ganu carolau yng Nghapel Coch dan arweiniad Parti Bytholwyrdd. Gwnaed elw o £200 at Gronfa Cyfeillion Plas Pengwaith. Dymuna aelodau'r Parti ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau.

## Cronfa Gronyn

Diolch yn fawr iawn am bob rhodd a dderbyniwn i Gronfa Gronyn.

Mae'r cyfan yn help i dalu am gost argraffu Gronyn bob Sul.

Gellir cyfrannu at y Gronfa unrhyw adeg, a gwerthfawrogwn bob cyfraniad yn fawr.

Mae modd anfon cyfraniadau at gostau Gronyn at Drysorydd yr Ofalaeth, Mrs Bet Williams, 21 Stryd yr Wyddfa, Llanberis, neu gallwch eu rhoi i'r Gweinidog.

Y gobaith yw bod cymaint o bobl â phosibl yn derbyn Gronyn. Felly, os gwyddoch am rywun a fyddai'n hoffi derbyn copi yn wythnosol, ond nad yw'n ei dderbyn ar hyn o bryd, cofiwch roi gwybod i ni.

## Coleg y Bala

Ar ddechrau blwyddyn mae Coleg y Bala wedi cyhoeddi taflen o ddyddiadau'r gwahanol gyrsiau a fydd yno eleni.

Y dyddiad sydd wedi ei nodi ar gyfer Cwrs Plant Llanberis a Llanrug a Bethel yw dydd Gwener, Mai 13 hyd ddydd Sul, Mai 15. Bydd hwn ar gyfer plant 8 i 12 oed.

Er mai 'Llanberis a Llanrug a Bethel' sydd ar y daflen, mi fydd croeso i blant yr Ofalaeth gyfan ymuno â'r criw a fydd yn mynd i'r Bala. Daw rhagor o fanylion yn nes ymlaen. Nodwch y dyddiad.